

DYSGU AC YMGYSYLTU

Rhaglen i'r Cyhoedd

Mi wnaethom lwyddo i gynnig sgysiaau ac arddangosiadau



Billy Adams yn cynnal arddangosiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

gan artistiaid yn rhad ac am ddim ar gyfer Billy Adams, Terry Bell Hughes a Justine Allison yn y stiwdio grochenwaith yng Nghanolfan y Celfyddydau. Daeth myfyrwyr sy'n astudio Celfyddyd Gain, Celf a Dylunio yn ogystal â cherameg mewn sefydliadau Addysg Uwch lleol i'r sesiynau hyn, a chroesawyd aelodau o'r cyhoedd yn ogystal. Gweler ein gwefan am fanylion y sgysiaau ac arddangosiadau sydd ar y gweill. Gallwch hefyd gysylltu â ni i drefnu ymweliad fel unigolyn neu gyda grŵp. Gall y rhain gynnwys cyflwyniadau i'r arddangosfeydd, sesiynau trin a thrafod, neu fynediad i gasgliadau'r archif.

Rhaglen i'r Teulu

Ers 10 mlynedd rydym yn rhedeg gweithgareddau i'r teulu yn yr oriel sy'n gysylltiedig â'n harddangosfeydd. Bydd y rhain yn rhedeg, fel arfer, ar Sadwrn olaf y mis o fis Medi tan fis Mawrth. Rydym yn cymryd rhan hefyd ym menter Hey Clay! y Cyngor Crefftiau i annog pobl i ddefnyddio clai. Gweler yr hysbysiadau yn yr oriel neu ar ein gwefan am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau i'r teulu.

Rhaglen i Ysgolion a'r Gymuned

Gallwn gynnig sesiwn gwneud crochenwaith i ysgolion a grwpiau wedi'i gyfuno â thro o amgylch yr arddangosfa yn yr oriel. Cysylltwch â'r tîm Dysgu Creadigol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am ragor o wybodaeth: Amanda Trubshaw amj@aber.ac.uk 01970 62160

Hyfforddiant

Mynychodd Louise Chennell gwrs hyfforddiant ar Gefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (a drefnwyd gan MALD a derbyniodd hefyd fwsariaeth gan y Gronfa Gelf i fynychu cwrs ar 'How to Curate the Moving Image' yn Oriel Whitechapel yn Llundain. Mae Louise hefyd wedi bod yn mwynhau dosbarthiadau cerameg i ddechreuwr yn rhan o raglen Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth.

Grantiau a Gwobrau

Dyfarnwyd inni grant mawr o £22k drwy Gymorth i'r Rhaglen gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y cyfnod 2019/2020.

Staff

Ym mis Mawrth 2018, ymddeolodd Moira Vincentelli fel Curadur y casgliadau ond mae hi'n parhau yn ymgynghorydd ar gyfer y casgliadau.

Louise Chennell: Curadur ac Archifydd Cerameg

Moira Vincentelli: Athro Emeritws mewn Hanes Celf a Churadur Ymgynghorol Cerameg

Neil Holland: Uwch-Guradur Casgliadau

Contacts

Cyfeiriad y wefan yw <http://www.ceramics-aberystwyth.com>

Cyswllt E-bost yw contact@ceramics-aberystwyth.com

Dilynwch ni ar Twitter  a Facebook 

Cyfeiriad Post: Yr Archif Cerameg, Yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth SY23 1NE

Yr Archif Cerameg: Ffôn: (+0044) 01970 622192

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth: Ffôn (+0044) 01970 623232 (ar gyfer manylion arddangosfeydd)

Yr Ysgol Gelf: Ffôn (+0044) 01970 622460 (ar gyfer gwybodaeth gyffredinol, ymholiadau a chwestiynau).

Oriau Agor yr Oriel

Dydd Llun – Dydd Mercher 10yb–5yh

Dydd Iau – Dydd Sadwrn 10ayb – 8yh

Dydd Sul 1yp – 5yh

Please check before visiting to avoid exhibition changeover or maintenance closures.

Cydnabyddiaethau

Lleolir yr Archif Cerameg yn yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar i'r cyrrff canlynol am gefnogi ein gwaith: Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Grantiau Pwrcasu Adnoddau'r V&A, y Gronfa Gelf, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, Plant a'r Celfyddydau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



ISSN 1461-3719

CASGLIAD CERAMEG AC ARCHIF

Bwletin

Yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth



Rhifyn 15 2018/19

Newyddion a Gweithgareddau <
Arddangosfeydd <
Arddangosfeydd Teithiol
a Benthyciadau <
Gweithgareddau Dysgu
ac Ymgysylltu <
Caffaeliadau <
Grantiau a Gwobrau <
Staff a Chysylltiadau <
Cydnabyddiaethau <



NEWYDDION A GWEITHGAREDDAU

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rhoddwyd pwyslais cryf ar artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru. Cynhaliodd Terry Bell Hughes a Billy Adams arddangosfeydd yn dangos cyfeiriadau newydd eu gwaith yn gynnar yn 2018. Parhawyd i gefnogi'r gyfres *laith Clai* a drefnwyd gan Oriel Mission, Abertawe, drwy gynnal sioeau gan Justine Allison a Kate Haywood yn gynnar yn 2019. Ar gyfer prif arddangosfa 2018, gwahoddwyd y ceramegydd o Gaerdydd, Robyn Cove, i ymateb i botiau Michael Cardew yn y casgliad. Dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant cynhyrchu iddi, a hon oedd ei sioe unigol gyntaf. Mae gan yr artist berthynas arbennig â gwaith Cardew gan fod ei mam yn gyfnither iddo ac roedd ei theulu yn defnyddio ei jariau, cwpanau a phowlenni bob dydd. Ysgogwyd diddordeb Robyn mewn cerameg stiwdio gan ei hewythr, Simon Fox, hefyd gan fod ganddo gasgliad sylweddol o grochenwaith Michael Cardew a Wenford Bridge. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys ei detholiad o botiau Michael Cardew o gasgliad y Brifysgol, yn ogystal â photiau a fenthycwyd gan Simon Fox, yn eu plith ambell un na ddangoswyd yn gyhoeddus o'r blaen.

Not just for Pretty: Robyn Cove mewn perthynas â Michael Cardew

21 Gorffennaf – 7 Hydref 2018



Robyn Cove yn disgrifio ei phrofiad:

“Ar gyfer y prosiect ‘Not Just for Pretty’, cynhyrchais gorff newydd o waith gan ddefnyddio fy sgiliau fel crochenydd yn gweithio ar olwyn crochenydd. Dysgais sgiliau ychwanegol fy hun yn cynnwys taflu ar raddfa fawr, taflu potiau fesul rhan a chreu potiau coginio drwy ddefnyddio technegau amgen i'r rhai a ddefnyddiais o'r blaen. Euthum hefyd i weithdy Douglas Fitch lle dysgais greu dysglau wedi'u mowldio o fowldiau Wenford Bridge gwreiddiol ar gyfer yr arddangosfa.

Ysgogwyd diddordeb yn fy oriel gan rai a fu'n ymweld â'r arddangosfa a chafwyd llif o ddiddordeb o bob cwr o'r byd yn fy mhortiau; y potiau a greais ar gyfer yr arddangosfa a'm gwaith arferol. Fe'm gwahoddwyd i roi sawl sgwrs am y prosiect. Rwyf bellach yn gyflwynwraig hyderus ac wedi deall fy mod i'n mwynhau rhoi sgwrs.

Dysgais lawer wrth wneud amrywiaeth mor eang o botiau newydd. Mae'r prosiect wedi fy ngwneud yn well tafflydd ac wedi fy ngalluogi i archwilio cynlluniau a syniadau gwahanol. A hithau bellach yn flwyddyn ar ôl y profiad, rwy'n teimlo fy mod i'n deall fy ngwaith yn y stiwdio yn well a sut mae pobl yn ymateb i fy ngwaith. Roedd yn brofiad amhrisiadwy ac rwyf wedi elwa ohono yn y ffyrdd hyn a llawer mwy.”

Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi ein hannog i gynnig mwy o gyfleoedd i ceramegwyr newydd yn 2019/20. Rydym yn datblygu prosiect deorydd ac yn gofyn i ceramegwyr ddod a chreu gwaith drwy ymateb i'r themâu yn y casgliad. Un peth a ddaw ohono fydd cymryd rhan mewn arddangosfa grŵp yn yr Oriel Cerameg yng Nghanolfan y Celfyddydau. Ariennir y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Am ragor o fanylion, gweler ein gwefan neu cysylltwch â ni – mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar gefn y cylchlythyr hwn.

Rydym wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau diddorol eraill yn ogystal

Prosiect Sain Toshimaru Nakamura

Disgrifir Nakamura fel un o gyfansoddwyr electronig pwysicaf yr 20fed a’r 21fed ganrif. Defnyddiodd ‘Pilgrim Plate’ Bernard Leach o’r casgliad i ddatblygu sgôr wrthrychau yn sail i berfformiad cerddorol byrfyfyr a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Amgueddfa Ceredigion ym mis Mawrth 2018. Parhawyd i gydweithio â’r Adran Gyfrifiadureg a wnaeth sganio’r cerameg er mwyn i gerddorion arbrofol o Gymru ddefnyddio’r lluniau i’w hysbrydoli ar gyfer prosiect cerdd.



Desg sain Toshimau Nakamura gyda llun o blât Bernard Leach i’w ysbrydoli

Great Art Quest / Chwilfa Gelf Fawreddog

Defnyddiwyd arddangosfa Billy Adams fel thema ar gyfer prosiect yn gweithio gyda’r Great Art Quest, prosiect celfyddydau ar hyd a lled y DU a gynlluniwyd gan ‘Children and the Arts’ drwy nawdd GAM (UK) Cyf. Cynlluniwyd y prosiect i gyflwyno pobl ifainc i’w horiel leol. Bu plant Cyfnod Allweddol 2 o bedair ysgol leol yn gweithio yn yr oriel a’r crochendy yn ystod cyfnod yr arddangosfa. Mi wnaethant barhau i adrodd straeon a chreu gwaith celf yn yr ystafell ddosbarth ac arddangos eu gwaith yng Nghanolfan y Celfyddydau ar ddiwedd y prosiect.



Myfyrwyr o Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd, Llanrhystud

Prosiect Cerfluniau Art Fund UK

Mae Prosiect Cerfluniau Art Fund UK yn fenter arbennig o uchelgeisiol i gatalogio casgliad cerfluniau cenedlaethol y DU ar wefan Art UK ar gyfer mwynhad, dysgu ac ymchwil. Tynnwyd lluniau o ddetholiad o gerameg gerfluniol i ymddangos ar wefan Art UK. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn y rhaglen Campweithiau mewn Ysgolion, gan fynd â darn o waith i ysgol ar gyfer diwrnod o ddysgu ymarferol.

Unlocking Our Sound Heritage / Datgloi ein Treftadaeth Sain

Prosiect pum mlynedd yw Datgloi ein Treftadaeth Sain, sy’n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a’i arwain gan y Llyfrgell Brydeinig. Mae’r prosiect yn perthyn i’r rhaglen ‘Achub ein Sain’ sy’n anelu at amddiffyn a darparu mynediad at recordiadau sain ledled y DU. Erbyn diwedd 2021, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi amddiffyn dros 600 o recordiadau unigryw a phrin o’r Archif Cerameg ym Mhrifysgol Aberystwyth drwy eu digideiddio a darparu mynediad atynt. Mae’r tapiau hyn yn cynnwys hanes llafar, cyfweiliadau, darlithoedd a recordiadau mewn digwyddiadau. Bydd hyn yn datblygu ymhellach y gwaith a wnaed gan fyfyrwyr MA o Astudiaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2015.

ARDDANGOSFEYDD

Beth sy’n Newydd? 9 Medi – 5 Tachwedd 2017

Caffaeliadau Diweddar o’r Casgliad yn cynnwys darnau a brynwyd o Wyl Cerameg Ryngwladol 2017.

Terry Bell Hughes 20 Tachwedd 2017 – 2 Chwefror 2018

Arddangosfa deithiol wedi’i threfnu gan Ganolfan Grefftau Rhuthun yn cynnwys cerameg ddiweddar gan yr artist. Gwelir Terry yn chwarae o gwmpas yn fwy â ffurfiau domestig.

Billy Adams: Transitions 12 Chwefror – 16 Mawrth 2018

Gwaith newydd gan yr artist ac mae rhai o’r darnau yn ymgorffori strwythurau metel y dysgodd Billy greu gyda gof lleol.

Chaos, Flow, Meander 5 Mai – 15 Gorffennaf 2018

Gwaith o’r Casgliad Cerameg sydd wedi ei ysbrydoli gan ffurfiau naturiol yn cynnwys gwaith Gordon Baldwin, Alan a Ruth Barrett Danes, Richard Slee, Geoffrey Swindell, Mary White, Mollie Winterburn ac eraill



Gwaith gan Gordon Baldwin a Mary White yn cael ei arddangos yn yr arddangosfa Chaos, Flow, Meander

Chware Teg / Fair Play 20 Hydref – 13 Ionawr

Arddangosfa yn dathlu 100 mlynedd o fenywod yn creu a chynllunio cerameg ym Mhrydain. Mae’n cynnwys gwaith yn y casgliad gan Norah Braden, Katharine Pleydell-Bouverie, Elizabeth Fritsch, Alison Britton, Carol McNicoll, Morgen Hall, Anna Noel ac eraill.



Iaith Clai

Mae iaith Clai yn brosiect parhaus sy’n dathlu amrywiaeth arferion cerameg medrus. Mae’r fenter yn cael ei churadu gan Ceri Jones a’i threfnu gan Oriel Mission yn Abertawe, dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Justine Allison: Shifting Lines 2 Chwefror – 31 Mawrth 2019

Kate Haywood: Traces 13 Ebrill – 9 Mehefin 2019

Llwybr Darganfod 22 June – 26 August 2019

Llwybr Darganfod – Cerameg o Wsbecistan. Arddangosfa sy’n dangos gwaith cyfoes o rai o ardaloedd cynhyrchu crochenwaith enwog Wsbecistan, ochr yn ochr â chrochen-waith gwerin o Gymru o’r casgliad. Bydd yr arddangosfa ar gael i deithio o fis Medi 2019 tan Fehefin 2020. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth am Arddangosfeydd Teithiol.



Y Byd ar flaenau ein bysedd 15 Mehefin – 13 Gorffennaf 2019

Yr Hen Goleg, Aberystwyth
Ar agor: Llun-Gwener 8am-7pm, Sadwrn 10am-4pm

Arddangosfa yn cynnwys gweithiau yn y casgliad a brynwyd drwy’r Wyl Cerameg Ryngwladol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Cynhelir yr arddangosfa hon yn yr Oriel yn yr Hen Goleg ar lan y môr yn Aberystwyth.

ARDDANGOSFEYDD TEITHIOL A BENTHYCIADAU

Aeth un ffio1 Bizen ac un bowlen o grochenwaith Satsuma i Gaerdydd ar gyfer yr arddangosfa KIZUNA: Japan | Wales | Design.

Aeth detholiad o gerameg Wenford Bridge i Oriel Burton, Bideford er mwyn ymestyn Prosiect Potiau Poeth y Casgliad Cerameg.

Aeth dau botyn, y naill gan Reginald Wells a’r llall gan Charles Vyse i arddangosfa Tate, St. Ives, *That Continuous Thing: Artists and the Ceramics Studio, 1920 – Today*.

Aeth cerameg gan Ladi Kwali, Shoji Hamada, Michael Cardew, Norah Braden, Katharine Pleydell Bouverie a Magdalene Odundo i America i’r arddangosfa *Things of Beauty Growing: British Studio Pottery* yn y Yale Centre for British Art.



Tall Burnished Bottle gan Magdalene Odundo (yn y blaen ar y chwith) yn cael ei arddangos yn Oriel Hepworth

Aeth *Animal Fantasies / Ffantasiau Anifeiliaid* ar daith i Ganolfan o Celfyddydau Salisbury yn hydref 2018 a *Taking Tea / Cael Te* ar daith i Amgueddfa Swydd Rhydychen yn gynnar yn 2019.

Yn fwy diweddar, rydym wedi benthyca gwaith gan Gwyn Hanssen Pigott, Ladi Kwali a Magdalene Odundo ar gyfer arddangosfa 2019: *Magdalene Odundo: The Journey of Things* yn amgueddfa Hepworth, Wakefield. Cynhelir yr arddangosfa hefyd yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol Salisbury, Prifysgol East Anglia, yn hydref 2019.

Caffaeliadau

O Wyl Cerameg Ryngwladol 2017 prynwyd gwaith gan: Eddie Curtis (DU), Ostinelli & Priest (DU), Antoinella Cimatti (yr Eidal), Zahed Taj Eddin (Syria) a Paul Young (DU).

O’n harddangosfeydd cawsom ddarnau gan Terry Bell Hughes, Billy Adams, Robyn Cove a Justine Alison. Prynwyd hefyd ddarnau gan Pete Bodenham a Jane Perryman. Derbyniwyd hefyd rodd o 23 eitem gan Stephen Smith – darnau gweithredol bach o grochendai Cymru yn bennaf, yn cynnwys dau ddarn gan John Davies.



‘Merryweather’ gan Paul Ostinelli a Gaynor Priest, 2017